Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda ddydd Dydd Llun, 4 Mawrth 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Wyn Evans, Gwyn Wigley Evans, Marc Davies, Caryl Roberts, Rhodri Evans, Elaine Evans a Chris James.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Alun Williams, Catrin M S Davies a Wyn Thomas (Aelodau Cabinet).
Y Cynghorwyr Raymond Evans, Hugh Hughes, Euros Davies, Gareth Lloyd ac Amanda Edwards.

Y SWYDDOGION A OEDD YN BRESENNOL: Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Swyddog Monitro, Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl, Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu, Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu, a Carol Thomas a Llinos Williams (Cyfieithwyr).

HEFYD YN BRESENNOL: Hazel Lloyd-Lubran, Prif Weithredwr CAVO a Chadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

(10.00 am - 12.15 pm)

34 Ymddiheuriadau
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
Ymddiheurodd y Cynghorydd Endaf Edwards am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

35 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
Dim.

36 Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2023
Estynnodd y Cadeirydd groeso i Hazel Lloyd Lubran, Prif Weithredwr CAVO a Chadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Diana Davies a Timothy Bray, Swyddogion, i'r cyfarfod i gyflwyno cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

.
O dan Adran 35 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roedd yn rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

Y prif bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth oedd y canlynol:

- Yn dilyn cwestiwn ynghylch yr Is-grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid a'r cyllid yr oedd Cyngor Sir Ceredigion yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gefnogi pobl o Wcráin am 12 mis, pobl o Affganistan am 3 blynedd a phobl o Syria am 5 mlynedd, cadarnhaodd Diana Davies y byddai'n rhannu'r adroddiad llawn a gyflwynwyd i gyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a fyddai'n rhoi mwy o fanylion i Aelodau'r Pwyllgor.
- Yn dilyn cwestiwn, cadarnhaodd Hazel Lloyd-Lubran fod y Bwrdd wedi ymateb drwy Cynnal y Cardi i gynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.
- Yn dilyn cwestiwn, cadarnhawyd bod y Bwrdd yn cydweithio ag awdurdodau cyfagos, a bod hyn yn debygol o gynyddu yn ystod y misoedd nesaf.
- Cyfeiriwyd at Ddangosfwrdd Gorwel (Gorwel yw platfform ar y we a ariennir gan grant rhanbarthol Llywodraeth Cymru i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynorthwyo nid yn unig wrth gynhyrchu'r Asesiadau Llesiant Lleol, ond i ganiatáu i ddefnyddwyr gydweithio a rhannu gwybodaeth am brosiectau a chasglu gwybodaeth fwy lleol fel canlyniadau grwpiau ffocws ac arolygon). Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor ba mor hyblyg oedd y Bwrdd o ran addasu'r amcanion pan fo'r dangosfwrdd yn denu sylw at fater penodol. Nododd Cadeirydd y Bwrdd fod yn rhaid i'r Bwrdd fod yn hyblyg a phwysleisiodd y Rheolwr Corfforaethol bwysigrwydd cydweithio ag ardaloedd eraill yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad:

i. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2023.

Y rheswm dros y penderfyniad:
Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Swyddogion am ddod i'r cyfarfod a chyflwyno'r wybodaeth.

37 Diweddariad Chwythu'r Chwiban

Croesawyd Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Swyddog Monitro, i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Esboniwyd mai dyma oedd y sefyllfa ar y pryd:
Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Rhagfyr 2023 gwnaethpwyd 6 cyfeiriad datgelu Chwythu'r Chwiban i'r Swyddog Monitro.
Ar 20/12/23:
Roedd 5 wedi'u cwblhau,
O'r rhain: doedd dim ymchwiliad ffurfiol. Datryswyd y rhain drwy:
- weithredoedd mewnol
- hyfforddiant
- prosesau ymchwilio eraill

Roedd ymchwiliad yn parhau ynghylch 1.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad:
1. Nodi cynnwys yr adroddiad.
Rheswm dros yr argymhelliad:
Sicrhau cryfhau a gwella'r drefn Chwythu'r Chwiban.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad. Cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn yn y dyfodol. Hefyd, awgrymwyd y dylai'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol sicrhau bod yr holl swyddogion yn cwblhau hyfforddiant diweddaru bob tair blynedd fel y nodwyd yn yr adroddiad. Hefyd, dylid casglu rhagor o fanylion ynghylch nifer y swyddogion nad oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant, a faint oedd yn hyfforddiant diweddaru.

38 Adrodd ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)

Y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu oedd yn gyfrifol am adolygu defnydd y Cyngor o RIPA.

Fel arfer, cyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis; fodd bynnag cyflwynwyd yr adroddiad hwn 9 mis wedi'r adroddiad diwethaf oherwydd diffyg gweithgarwch RIPA.

Cyflwynodd Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Swyddog Monitro, y prif bwyntiau sef:

1) Gweithgarwch RIPA
Ni fu unrhyw weithgarwch RIPA gan unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 22 Mai 2023 a 31 Mawrth 2024.

Cadarnhaodd y Swyddogion Awdurdodi nad oeddent wedi ystyried unrhyw geisiadau RIPA yn ystod y cyfnod hwn.
Roedd y datganiad blynyddol a gyflwynwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn adlewyrchu hyn.

2) Hyfforddiant

Roedd gweithdy hyfforddi diwrnod llawn ynghylch RIPA wedi'i drefnu ar gyfer 18 Ebrill 2024, a byddai'n cael ei gynnal gan ddarparwr lleol i swyddogion perthnasol.
Dylai'r hyfforddiant hwn a'r sesiynau blaenorol sicrhau bod gan swyddogion perthnasol y wybodaeth angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion RIPA.

3) **Swyddogion Awdurdodi**

Y Swyddogion Awdurdodi presennol ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, awdurdodiadau Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (CHIS) ac awdurdodiadau nad ydynt yn rhai RIPA oedd:
Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth; a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.
Y Prif Weithredwr oedd y Swyddog Awdurdodi o ran rhoi awdurdodiadau mewn perthynas â gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig, ffilmio unrhyw Aelod Etholedig, Cyfarwyddwr Corfforaethol neu Swyddog Arweiniol Corfforaethol, neu wyliadwriaeth yn ymwneud â phobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed.
Y Swyddog Rheng Cymeradwy ar gyfer Data Cyfathrebu oedd:
Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd Yr Eilyddion amgen (os nad oedd y Swyddog Rheng Cymeradwy uchod ar gael) oedd:
Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth; a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad:
Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.
Y rheswm dros yr argymhelliad:
Sicrhau bod y pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddefnydd y Cyngor o RIPA a gweithredu polisïau.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a diolchodd y Cadeirydd i Elin Prysor am ddod i'r cyfarfod a chyflwyno'r wybodaeth.

39 Polisi Diogelu Corfforaethol

Diweddarwyd y Polisi Diogelu Corfforaethol er mwyn adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu diwygiedig Cymru. Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams, yr Aelod Cabinet, yr adroddiad gyda chymorth Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd y Grŵp Diogelu Corfforaethol wedi'i ailsefydlu ar ôl i bethau fod ar stop dros gyfnod y pandemig. Roedd y Grŵp wedi goruchwylio'r gwaith o ddrafftio'r Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig yn barod ar gyfer ei weithredu a'i dywys drwy'r broses ddemocrataidd.
Cafodd fersiwn ddiwethaf y Polisi Diogelu Corfforaethol ei pharatoi yn 2017 ac yn sail i'r polisi yr oedd Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan gan gynnwys oedolion agored i niwed (2008). Cafodd Gweithdrefnau Diogelu Cymru eu gweithredu yn 2019 ac roeddent bellach wedi'u hymgorffori yn y polisi.
Roedd y polisi'n berthnasol i staff, Cynghorwyr, gwirfoddolwyr, a phobl oedd yn gwneud gwaith ar ran y Cyngor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell y dylai'r Cabinet wneud y canlynol:

1. Cytuno ar y Polisi Diogelu Corfforaethol fel y ddogfen ddiffiniol i sicrhau bod Ceredigion yn sefydliad diogel sy'n cydnabod ei gyfrifoldebau i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Rhesymau dros yr argymhelliad:
Roedd yn hanfodol bod y Cyngor yn darparu fframwaith polisi i ddiogelu pobl sy'n cyflenwi gwasanaethau ar ran yr Awdurdod Lleol.
Roedd y Polisi Diogelu Corfforaethol Diwygiedig yn defnyddio'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth perthnasol a chyfredol.

40 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2022-2023

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams, yr Aelod Cabinet, ac Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2022-2023.

Roedd Ceredigion yn parhau i fod yn bartner a oedd yn cyfrannu'n llawn at weithgareddau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac yn cymryd y dyletswyddau a roddwyd i ni i fod yn gyfranogwyr gweithredol o ddifri.
Byddai'r adroddiad blynyddol nesaf ar gyfer 2023-24 yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst 2024.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

ARGYMHELLIAD:
Mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n nodi cynnwys yr adroddiad.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd Williams, ac Audrey Somerton-Edwards am ddod i'r cyfarfod a chyflwyno'r ddau adroddiad.

41 Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol Cyfun CYSUR/CWMPAS Chwarter 2 2023/24

Croesawyd y Cynghorydd Alun Williams, yr Aelod Cabinet, ac Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, i'r cyfarfod i gyflwyno Adroddiad CYSUR / CWMPAS ar gyfer chwarter 2.

Dyma grynodeb o'r pwyntiau allweddol:

- Yn Chwarter 2, bu cynnydd yn nifer y cysylltiadau / adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch plant / pobl ifanc o'i gymharu â Chwarter 1 - gyda 928 o gysylltiadau / adroddiadau yn Chwarter 2 o'i gymharu ag 888 o gysylltiadau / adroddiadau yn Chwarter 1.
- Fodd bynnag, er y bu cynnydd yn nifer y cysylltiadau / adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 2, bu gostyngiad yn nifer cyffredinol y cysylltiadau / adroddiadau a arweiniodd at orfod cymryd camau o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant, o 172 yn Chwarter 1 i 132 yn Chwarter 2. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o gysylltiadau / adroddiadau yn cael eu cyfeirio at Wasanaethau Ymyrraeth Gynnar/Atal neu eu cyfeirio am asesiad ar gyfer gofal a chymorth ac felly nid ydynt yn cael eu huwchgyfeirio ar gyfer ymyriadau diogelu. Mae hyn o ganlyniad i ddatblygiad parhaus y model Llesiant Gydol Oes ac, yn benodol, datblygu Brysbennu i Blant yn y Porth Gofal.
- 14.2% oedd canran yr atgyfeiriadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn Chwarter 2 o'i gymharu â 19.4% yn Chwarter 1. Yn Chwarter 2 aeth 5.9% o'r adroddiadau ymlaen i Ymholiad Adran 47, o'i gymharu ag 8.8% yn Chwarter 1 ac yna o ran y rhai a aeth ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol, aeth 0.9% ymlaen i'r cam hwnnw yn Chwarter 2, o'i gymharu â 0.7% yn Chwarter 1.
- Mae cyfanswm y plant sy'n destun Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol yn y chwarter hwn wedi gostwng ymhellach i 16, o'i gymharu â 23 yn Chwarter 1, a 35 yn Chwarter 4.
- Cyfanswm y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol oedd 10 o'i gymharu ag 20 yn Chwarter 1.
- Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y gofrestr yn dilyn Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn oedd 22.
- Bu gostyngiad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu yn y chwarter hwn ac mae'n ymddangos mai'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yw prif ffynonellau'r adroddiadau yn y chwarter hwn.
- Bu gostyngiad yn nifer yr ymholiadau Adran 47 a gynhaliwyd yn y chwarter hwn hefyd, gyda 55 yn cael eu cynnal yn y chwarter hwn o gymharu â 78 yn Chwarter 1. Cynhaliwyd 41 o'r ymholiadau hynny ar y cyd â'r Heddlu yn y chwarter hwn a chynhaliwyd 14 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel Asiantaeth Sengl.
- Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at gynnal ymholiad o dan Adran 47 yn Chwarter 2 oedd cam-drin corfforol a cham-drin / camfanteisio rhywiol, fel yn achos Chwarter 1.
- Roedd 40 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y chwarter hwn, o'i gymharu â 52 ar ddiwedd Chwarter 1. Yn y chwarter hwn,

cofrestrwyd 21 o blant o dan y categori esgeulustod, 14 o dan y categori cam-drin emosiynol / seicolegol, 4 o dan y categori cam-drin ac esgeulustod emosiynol / seicolegol ac yna 1 o dan y categori cam-drin rhywiol a cham-drin emosiynol / seicolegol.

- Y prif faes a oedd yn peri pryder o ran y chwarter hwn oedd y gostyngiad sylweddol yng nghanran y Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol a gynhaliwyd o fewn yr amserlen statudol o 15 diwrnod gwaith ar ôl cytuno bod angen Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Gostyngodd y ganran yn Chwarter 2 i 43.7% o'i gymharu ag 80% yn Chwarter 1. Roedd y gostyngiad oherwydd materion staffio. Fodd bynnag, cynhaliwyd y Cynadleddau Adolygu a'r Grwpiau Craidd yn bennaf o fewn y terfynau amser, gyda 91.7% o'r Cynadleddau Adolygu yn cael eu cynnal o fewn y terfynau amser a 90% o'r grwpiau craidd yn cael eu cynnal o fewn y terfynau amser statudol.
- O ran **Diogelu Oedolion**, bu gostyngiad yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a / neu eu hesgeuluso, gyda 176 o oedolion mewn perygl yn cael eu hadrodd yn y chwarter hwn o'i gymharu â 221 yn Chwarter 1.
- Staff yn yr Awdurdod Lleol oedd prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau yn y chwarter hwn.
- Y categori cam-drin a adroddwyd fwyaf yn ystod y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol / seicolegol (87), esgeulustod (84 o adroddiadau am oedolion mewn perygl lle mai hwn oedd y prif gategori o gam-drin); roedd 47 yn ymwneud â cham-drin corfforol, 49 mewn perthynas â cham-drin ariannol a 9 yn ymwneud â cham-drin rhywiol. Cam-drin ac esgeulustod emosiynol / seicolegol oedd y categorïau uchaf o gam-drin a adroddwyd yn y chwarter blaenorol hefyd ond roedd esgeulustod yn fwy cyffredin yn y chwarter hwnnw.
- O'r adroddiadau a dderbyniwyd, mewn perthynas â phob categori o gam-drin, dywedwyd fod mwy o ddynion na menywod yn dioddef esgeulustod a cham-drin ariannol tra bod mwy o fenywod yn dioddef o gam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol / seicolegol.
- Yn Chwarter 2, adroddwyd bod y rhan fwyaf o'r gamdriniaeth / esgeulustod wedi digwydd yng nghartrefi'r dioddefwyr, gyda pherthynas / ffrind y person gan amlaf yn gyfrifol am y cam-drin / esgeulustod a gofnodwyd. Yr ail uchaf oedd mewn cartref gofal, gyda gweithiwr cyflogedig yn gyfrifol am y gamdriniaeth / esgeulustod honedig.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad: Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr awdurdod lleol.

Rheswm dros y penderfyniad: Er mwyn monitro trefniadau llywodraethu gweithgarwch yr awdurdod lleol a'i asiantaethau partner.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr awdurdod lleol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r Swyddog am gyflwyno'r wybodaeth.

42 Cyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol Ceredigion 2024-28 a'r adroddiad cysylltiedig ar yr ymarfer ymgynghori

Croesawyd y Cynghorydd Catrin M S Davies, yr Aelod Cabinet, i'r cyfarfod i gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028, gyda chefnogaeth Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Rhoddodd y Cynghorydd Davies wybod i Aelodau'r Pwyllgor mai dyma oedd y sefyllfa ar y pryd:

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 25/10/23 a 31/12/23. Cafodd ei hyrwyddo'n eang a'i gyflwyno i Gyngor Ieuenctid Ceredigion er mwyn casglu barn pobl ifanc. Ymatebodd 43 person i'r arolwg ar-lein, ni ddychwelwyd unrhyw gopïau papur a rhoddodd 16 aelod o'r Cyngor Ieuenctid adborth.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo mai ein pum Amcan Cydraddoldeb oedd yr Amcanion Cydraddoldeb cywir ar gyfer Cyngor Ceredigion – dywedodd cyfartaledd o 94% 'ie'. Roedd cyfartaledd o 83% o'r bobl a ymatebodd yn teimlo y byddai'r camau gweithredu yn y cynllun yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion.

Cyhoeddwyd adroddiad monitro'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'A yw Cymru'n Decach?' ym mis Tachwedd 2023. Roedd yr adroddiad yn atgyfnerthu'r angen am y camau gweithredu a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft ar gyfer 2024-28. Roedd canfyddiadau'r adroddiad wedi'u cynnwys yn y sylfaen dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r Cynllun.

Roedd ein Gweithgor Cydraddoldeb yn cael ei gydlynu gan y gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd a'i gadeirio gan y Cynghorydd Catrin MS Davies (Hyrwyddwr Cydraddoldeb). Y grŵp oedd yn gyfrifol am ddatblygu a monitro ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Cyfarfu'r grŵp ym mis Ionawr 2024 i adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb drafft yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Cytunodd y grŵp i wneud y newidiadau canlynol i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

- Addasu cam gweithredu 3.1 i gynnwys 'pobl ifanc' yn y mesur llwyddiant.
- Darganfod mwy am Orsensitifrwydd Trydanol.
- Annog staff i fynd â blwch adborth anhysbys i ymgynghoriadau wyneb yn wyneb.
- Addasu ein pecyn cymorth ymgysylltu mewnol i gynnig rhagor o ffyrdd i bobl ddweud wrthym beth yw eu barn pan ymgynghorir â hwy.
- Addasu camau gweithredu penodol o dan Amcan 4 i gynnwys y term 'profiad bywyd'.

- Newid ein ffurflen monitro cydraddoldeb fel ei bod yn gofyn am ‘ryw’ unigolyn, ac mewn cwestiwn pellach yn gofyn am ei ‘hunaniaeth rhywedd’.
- Dileu’r cam gweithredu, “sefydlu model integredig o ofal cymunedol a thai cymunedol yn Nhregaron”. Roedd y grŵp yn teimlo bod amrywiaeth o faterion yn cyfrannu at gyflawni’r canlyniad hwn, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt y tu allan i gylch gwaith y gweithgor Cydraddoldeb. Roedd y cam gweithredu hwn wedi’i gynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-27.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau’r Pwyllgor â’r argymhellion canlynol:

ARGYMHELLION:

• Argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion 2024-28.

• Gwneud argymhellion fel y bo’n briodol pan gyflwynir yr adroddiad i’r Cabinet ar 19 Mawrth 2024. Nid oedd unrhyw argymhellion pellach, fodd bynnag roedd Aelodau’r Pwyllgor yn canmol yr Aelod Cabinet a’r Swyddogion am y gwaith ynghlwm wrth greu’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Rhesymau dros y penderfyniad:
Byddai Cynllun Cydraddoldeb Strategol arfaethedig 2024-28 yn bwrw ymlaen â nod y Cyngor i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl yng Ngheredigion sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rheini nad ydynt yn rhannu nodwedd o’r fath.

43 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy’n codi o’r Cofnodion hynny

CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2024 yn gywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o’r cofnodion.

44 Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft

Yn eu tro, rhoddodd pob Cadeirydd ddiweddariad am Flaenraglenni Gwaith eu Pwyllgorau.

Unrhyw fater arall y penderfyna’r Cadeirydd fod angen i’r Pwyllgor roi sylw iddo ar frys

Nododd y Cadeirydd fod ei gyfnod o ddwy flynedd fel Cadeirydd yn dod at ei derfyn, ac roedd eisiau cymryd y cyfle i ddiolch i’r Is-gadeirydd, sef y Cynghorydd Wyn Evans, Lisa Evans a Dwynwen Jones, Swyddogion, a’r cyfieithwyr am eu cymorth. Diolchodd hefyd i Aelodau’r Pwyllgor am eu cymorth a’u cwrteisi yn ystod y cyfarfodydd. Dymunodd yn dda i Gadeirydd nesaf y Pwyllgor yn y rôl.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 13 Mehefin 2024

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____